Ysgol Gymunedol Peniel
Polisi Deall Economeg a Diwydiant
MASNACH DEG

NOD
Sicrhau bod yr ysgol yn ymrwymo i gefnogi Masnach Deg lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

AMCANION
Yn Ysgol Gymunedol Peniel ein hamcan yw rhoi'r profiadau canlynol i'r plant:

- Cydnabod bod amrywiaeth o swyddi y gall pobl eu gwneud
- Deall eu bod yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau economaidd yn barod-siopa, codi sbwriel, cynilo arian, gwerthu nwyddau ayb
- Cydnabod y cymhellion dros y gweithgareddau economaidd y maent mewn cysylltiad â nhw yn y cartref ac yn yr ysgol – e.e. cynorthwywyr gwirfoddol yn yr ysgol, siopwr lleol ayb
- Yr effaith y gallent gael ar y gymuned leol a'r gymuned ehangach e.e. casglu poteli plastig, papur gwastraff, stampiau, diffodd golau, cau tapiau ayb

Wrth i ni barhau i ddatblygu ein cynlluniau gwaith, byddwn yn cynnwys yr agweddau hynny o ddeall economeg a diwydiant y credwn y bydd yn gwella ac yn cyfoethogi'r cwricwlwm yr ydym yn ei ddarparu ac a fydd yn helpu ein plant i fod yn fwy ymwybodol o'r byd y maent yn byw ynddo/ y byddant yn byw ynddo.

Ymdrechwn i annog busnesau lleol a'r gymuned leol i gefnogi ein gwaith yn ymarferol a defnyddio eu harbenigedd i helpu ein plant. Byddwn yn edrych am unrhyw brofiadau uniongyrchol perthnasol ar gyfer ein plant i ymweld ag amrywiaeth o leoedd sy'n ymwneud â byd gwaith e.e. siopau a busnesau lleol.

Bydd y plant yn derbyn cyfleoedd i ddatblygu sgiliau busnes yn flynyddol e.e menter ystafell gemau y Ffair Nadolig, gwerthu cardiau a lluniau, gwerthu llysiau o'r ardd, cynnal digwyddiadau cymunedol masnach deg.

Cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli:

- Siop Ffrwythau – Chris Thomas
- Ann Loughan Masnach Deg
- Co-op Caerfyrddin